

Rhwydwaith  
**CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU**  
WALES SAFER COMMUNITIES  
Network

## **RHWYDWAITH CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU: CYFRES SEMINARAU'R GAEAF**

Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Gymuned: Cryfhau ymateb lleol i  
Droseddau Cyfundrefnol Difrifol drwy Glirio, Cynnal ac Adeiladu

**WALES SAFER COMMUNITIES NETWORK: WINTER SEMINAR SERIES**  
Citizen & Community Engagement: Strengthening local response  
to Serious Organised Crime (SOC) with Clear Hold Build


**10/02/2022, 10:00 – 11:30**

### **PECYN SEMINAR PACK**

#### **CYNNWYS • CONTENTS**

- 1 Rhaglen • Agenda**
- 3 Bywgraffiadau Siaradwyr • Speaker Biographies**
- 5 Adborth • Feedback**
- 6 Cwestiynau Cyffredin • FAQs**
- 8 Gwybodaeth Ychwanegol • Additional Information**
- 9 Taflenni electronig ychwanegol • Additional electronic leaflets (Data Cymru)**


**#cymunedaumwydio gel  
#safercommunities**



## RHAGLEN

Bydd y seminar hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â'n cymunedau yng Nghymru i sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei wirioneddol gynrychioli mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio i gryfhau'r ymateb lleol i Droseddau Cyfundrefnol Difrifol. Bydd y cyflwyniadau'n amlinellu manteision y model Clirio, Cynnal ac Adeiladu a sut y gall partneriaethau ddefnyddio'r dulliau hyn yn eu cynlluniau busnes er budd cymunedau. Bydd cyflwyniad hefyd i Dewis Cymru, sy'n eich galluogi i ddod o hyd i grwpiau cymunedol lleol yn hawdd.


- |              |  |
|--------------|--|
| <b>10:00</b> | <b>1. Croeso a Chyflwyniad</b><br>Emma Thomas, Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru  |
| <b>10:10</b> | <b>2. Ymgysylltu â Dinasyddion a Chlirio, Cynnal ac Adeiladu</b><br>Shane Roberts, Uned Plismona Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, Y Swyddfa Gartref  |
| <b>10:30</b> | <b>3. Peilot Clirio, Cynnal ac Adeiladu yng Nghymru: Canfyddiadau a'r hyn a ddysgwyd hyd yma</b><br>Prif Arolygydd Matt Geddes, Arweinydd Clirio, Cynnal ac Adeiladu, Heddlu Gogledd Cymru |
| <b>10:50</b> | <b>4. Dewis Cymru: Sut i ddarganfod beth sydd ar gael yn ein cymunedau</b><br>Jodie Phillips, Gweinyddwr Dewis Cymru, Data Cymru   |
| <b>11:10</b> | <b>5. Panel Holi ac Ateb</b><br>Yr holl siaradwyr  |
| <b>11:25</b> | <b>6. Cloi</b><br>Emma Thomas, Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru  |



## AGENDA

This seminar will highlight the importance of engaging with our communities in Wales to ensure that the voice of the community is truly captured in decision making and planning to strengthen the local response to Serious Organised Crime (soc). The presentations will outline the advantages of the Clear Hold Build model and how partnerships can take these approaches into their business planning to benefit communities. There will also be an introduction to Dewis Cymru, which allows you to find local community groups with ease.

- |              |  |
|--------------|--|
| <b>10:00</b> | <b>1. Welcome and Introductions</b><br>Emma Thomas, Head of Wales Safer Communities Network  |
| <b>10:10</b> | <b>2. Citizen Engagement and Clear Hold Build</b><br>Shane Roberts, Serious and Organised Crime (soc) Policing Unit, Home Office                   |
| <b>10:30</b> | <b>3. Clear Hold Build Pilot in Wales: Findings and learnings so far</b><br>Chief Inspector Matt Geddes, Clear Hold Build Lead, North Wales Police |
| <b>10:50</b> | <b>4. Dewis Cymru: How to find out what's available in our communities</b><br>Jodie Phillips, Dewis Cymru Administrator, Data Cymru                |
| <b>11:10</b> | <b>5. Question &amp; Answer Panel</b><br>All Speakers  |
| <b>11:25</b> | <b>6. Close</b><br>Emma Thomas, Head of Wales Safer Communities Network  |



## BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

### • **Shane Roberts, Uned Plismona Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, Y Swyddfa Gartref**

Mae Shane yn arwain prosiect 'Clear Hold Build' o fewn y Swyddfa Gartref. Mae wedi ymddeol fel Heddwys yn ddiweddar ac wedi treulio ei wasanaeth cyfan bron yn mynd i'r afael â Throedd Cyfundrefnol. Roedd Shane hefyd wedi gwirfoddoli ar gyfer secondiad mewn plismona cymunedol i ddeall y tirlun partneriaeth yn well a hefyd y ffasedau gwahanol y gall y sectorau gwahanol eu rhoi i mewn i fynd i'r afael â throedd cyfundrefnol.

Mae Shane bellach yn Arweinydd Polisi Y Swyddfa Gartref ar gyfer gwella'r ymateb lleol i SOC. Mae'n falch i ddeud bod rhywfaint o'r gwaith mae wedi'i wneud ar draws Plismona'r DU, oedd yn cynnwys Heddlu Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru yn golygu bod rhai o'r gwersi mae wedi gallu eu rhannu wedi eu casglu ar draws tirlun partner plismona y DU, ac mae llawer o'r ffocws wedi dod o rai o luoedd Cymru. Mae Shane yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad hwnnw mae wedi gallu ei rannu a dysgu ohono.

### • **Prif Arolygydd Matt Geddes, Arweinydd Clirio, Cynnal ac Adeiladu, Heddlu Gogledd Cymru**


Ar hyn o bryd mae Matt yn y rôl Prif Arolygydd Sirol ar gyfer Sir y Fflint yng Ngogledd Cymru. Mae'n gyfrifol am ddarparu Gwasanaethau Plismona Lleol i'r Sir sy'n cynnwys dwy ardal Plismona yng Ngogledd Sir y Fflint a De Sir y Fflint. Mae Plismona Lleol yn cynnwys Timau Plismona Cymdogaeth, Ymateb/Patrôl ac ymchwiliadau.

Mae gan Matt 20 mlynedd o wasanaeth Plismona, gan ymuno â Heddlu Glannau Mersi i ddechrau yn Ebrill 2001. Mae wedi ymgymryd â rolau o fewn Plismona Lleol a nifer o feysydd arbenigol gan gynnwys gweithgareddau yn targedu troseddau difrifol a threfnedig, cyn trosglwyddo i Heddlu Gogledd Cymru ar ddiwedd 2015. Ers symud i Ogledd Cymru, mae Matt wedi rheoli ardal wledig iawn yn Ne Gwynedd yn gyfrifol am ddarparu Gwasanaethau Plismona Lleol cyn symud i Wasanaethau Cymorth Gweithredol a derbyn perchnogaeth am Dîm Rhngdoriad Rhagweithiol a sefydlu a rheoli Uned Drôn yr heddlu.

Mae gan Matt ystod eang o brofiad ar draws Plismona Lleol, ymchwiliadau a mwy o swyddogaethau arbenigol mewn lleoliad trefol a gwledig.

### • **Jodie Phillips, Gweinyddwr Dewis Cymru, Data Cymru**

Ymunodd Jodie â Data Cymru yn 2005. Mae'n arwain ar holl swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys Cysylltiadau a Marchnata Data Cymru ac mae'n rhan o'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol. Mae Data Cymru yn arwain tua 70+ o brosiectau ac am y 7/8 mlynedd ddiwethaf, mae Jodie wedi arwain yn genedlaethol ar nifer o agweddau ar un prosiect yn arbennig – y porthol lles 'Dewis Cymru'. Yn ei 16 mlynedd gyda Data Cymru, Dewis Cymru yw un o'r prosiectau sydd wedi rhoi'r mwyaf o bleser a boddhad y bu'n rhan ohono erioed!



## SPEAKER BIOGRAPHIES

- **Shane Roberts, Serious and Organised Crime (SOC) Policing Unit, Home Office**

Shane leads on the Clear Hold Build project within the Home Office. He is a recently retired Police Officer, and spent almost all of his service tackling Organised Crime. Shane also volunteered to do a secondment into community policing to better understand the partnership landscape and the different facets that the different sectors can put into tackling organised crime.

Shane is now the Home Office Policy Lead for improving the local response to SOC. He is pleased to say that some of the work that he's done across Policing UK, which includes Dyfed Powys, Gwent, North Wales and South Wales Police, means that some of the lessons he's been able to share have been captured from across the UK policing partner landscape, and a lot of the focus has come from some of the Welsh forces. Shane is grateful for that engagement that he's been able to share and learn from.

- **Chief Inspector Matt Geddes, Clear Hold Build Lead, North Wales Police**


Matt is currently in the County Chief Inspector role for the County of Flintshire in North Wales. He is responsible for the delivery of Local Policing Services into the County which incorporates two Policing districts of Flintshire North and Flintshire South. Local Policing comprises Neighbourhood Policing Teams, Response/ Patrol and investigations.

Matt has 20 years Policing service, first joining Merseyside Police in April of 2001. He has undertaken roles within Local Policing and a number of specialist areas including activities targeting Serious and Organised Crime, before transferring into North Wales Police at the end of 2015. Since moving to North Wales, Matt has had command of a very rural district in the South of Gwynedd responsible for the delivery of Local Policing Services before then moving into the Operational Support Services and taking ownership of the North Wales Proactive Intercept Team and setting up and managing the force Drone Unit.

Matt has a wide range of experience across Local Policing, investigations and more specialist functions in both an urban and rural setting.

- **Jodie Phillips, Dewis Cymru Administrator, Data Cymru**

Jodie joined Data Cymru in 2005. She leads on all corporate functions including PR & Marketing in Data Cymru and is part of the Strategic Leadership Group. Data Cymru manage about 70+ projects and for the last 7/8 years, Jodie has led nationally on many aspects on one project in particular – the ‘Dewis Cymru’ well-being portal. In all of her 16 years in Data Cymru, the Dewis Cymru project is by far one of the most rewarding and enjoyable that she's ever been involved in!



## ADBORTH • FEEDBACK

**“Diolch i bawb am yr holl wybodaeth a rannwyd heddiw, gwerthfawrogir yn fawr.”**

7

**“Thank you to everyone for all the information shared today, much appreciated.”**

7

**“Cyflwyniadau ardderchog a llawn gwybodaeth. Diolch yn fawr.”**


**“Excellent presentations very informative. Thank you.”**

**“Diolch yn fawr am sesiwn da iawn.”**

**“Thank you very good session.”**

**“Diolch yn fawr roedd [y seminar] yn ddiddorol a defnyddiol iawn.”**

**“Thank you [the seminar] was very interesting and helpful.”**



## Cwestiynau Cyffredin

### c. [Ar gyfer Shane] Oes yna adnoddau ar-lein, fideos neu ddolenni y gellir eu rhannu os gwelwch yn dda?

A. Bydd copi o gyflwyniad Shane ar gael ar y wefan ar ôl y seminar i gynrychiolwyr gael mynediad a rhannu. Bydd Rhwydwaith Cymuned Mwy Diogel Cymru yn ystyried rhannu mwy o wybodaeth drwy ein gwefan a'n dosbarthiad bob pythefnos, "BRIFF".

### c. [Ar gyfer Matt] Roedd Heddwas gyda Heddlu Gogledd Cymru yn cydnabod y byddai'n ddiddorol gweld effaith ar ymchwil feintiol ac ansoddol yn dilyn Peilot Gogledd Cymru a gofynnwyd os gellir rhannu canfyddiadau rhwng lluoedd.


A. Roedd manylion cyswllt wedi eu cyfnewid i gynorthwyo gyda dysgu rhyngblismona a bydd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Swyddfa Gartref i rannu diweddariadau o'r prosiect 'Clear Hold Build' fel y byddant ar gael.

### c. [Ar gyfer Shane a Matt] Ydych chi'n meddwl ei bod yn bosibl dod â'r gymuned i'r broses yn gynt, fel bod ganddynt fwy o fuddsoddiad yn neilliant y gwaith? Mae'n ymddangos gyda chymaint o bwyntiau trosglwyddo, bod yna berygl o'r gwaith yn cael ei ddadwneud.

A. Cydnabuwyd mai nod Clear Hold Build yw ymgysylltu gyda'r gymuned gynted â phosibl ac annog teimlad o berchnogaeth gan y gymuned i sicrhau ei fod yn gynaliadwy. Cydnabyddwyd bod y peilotau yn y camau cynnar a bydd yna lawer i'w ddysgu i adlewyrchu a'u hystyried wrth i'r prosiect symud ymlaen.

### c. [Cyfeiriwyd at Jodie] Beth oedd enw'r Ap a drafodwyd yn y cyflwyniad?

A. Iechyd a Lles Cymru. I ddod o hyd a lawrlwytho'r Ap, ewch i storfa Ap neu Google Play a chwilio am 'Iechyd a Lles Cymru'. Os bydd unrhyw un angen cefnogaeth i ychwanegu gwybodaeth yn Dewis, yna cysylltwch â help@dewis.wales. Gweler y taflenni electronig isod o dudalen 9 am fwy o wybodaeth.



## FAQs

**Q. [Directed to Shane] Are there online resources, videos or links that can be shared please?**

A. A copy of Shane's presentation will be made available on the website after the seminar for delegates to access and share. The Wales Safer Community Network will look to share further information via our [website](#) and our fortnightly circulations, "BRIFF".

**Q. [Directed to Matt] A South Wales Police officer recognised that it would be interesting to see the impact on both qualitative and quantitative research following the North Wales Pilot and asked if the findings could be shared between forces.**

A. Contact details were exchanged to assist with inter-police learning and the Wales Safer Communities Network will continue to work closely with North Wales Police and the Home Office to share updates of the Clear Hold Build project as and when they become available.

**Q. [Directed to Shane and Matt] Do you think it is possible to bring the community into the process earlier on, so that they have more of an investment in the outcome of the work? It seems with so many handover points, there is a risk of the work becoming undone.**


A. It was recognised that the aim of Clear Hold Build is to engage with the community at the earliest opportunity and to encourage a sense of ownership by the community to ensure that it is sustainable. It was acknowledged that the pilots are in their early stages and that there will be a lot of learning to reflect and draw on as the project moves forward.

**Q. [Directed to Jodie] What was the name of the App discussed in the presentation?**

A. [Health and Well-being Wales](#). To find and download the App, go to the App store or Google Play and search for 'Health and Well-being Wales'.

If anyone needs support with adding information into Dewis then please contact [help@dewis.wales](mailto:help@dewis.wales).

Please see below electronic leaflets from page 9 for further information.



## GWYBODAETH YCHWANEGOL

- [Cymunedau Mwy Diogel i Gymru - Wales Safer Communities](#)
- [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | LLYW.CYMRU](#)
- [Cyfres Seminar Gaeaf – Ffurflen Werthuso \(office.com\)](#)
- [Right Wing Extremism in Wales – Winter Seminar Series Tickets, Tue 22 Feb 2022 at 14:00 | Eventbrite](#)
- <https://www.dewis.cymru>

## ADDITIONAL INFORMATION

- [Safer Communities for Wales - Wales Safer Communities](#)
- [Welsh Index of Multiple Deprivation | GOV.WALES](#)
- [Winter Seminar Series – Evaluation Form \(office.com\)](#)
- [Right Wing Extremism in Wales – Winter Seminar Series Tickets, Tue 22 Feb 2022 at 14:00 | Eventbrite](#)
- [www.dewis.wales](http://www.dewis.wales)

# Ydych chi'n gweithio yn y gymuned gydag aelodau'r cyhoedd? Hoffech chi gael gwybodaeth gyfredol ar flaenau'ch bysedd?



Lawrlwythwch yr Ap 'lechyd a Llesiant Cymru'. Mae'n cynnig mynediad all-lein i wybodaeth am ystod eang o sefydliadau a gwasanaethau lleol a chenedlaethol.



Partner lechyd a Llesiant Cymru

Mae cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Cefnogi Trydydd Sector Cymru a'r GIG yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd dan enw 'lechyd a Llesiant Cymru' i greu un cyfeiriadur gwasanaethau cyffredin. Mae'r wybodaeth yn cael ei dwyn ynghyd o Dewis Cymru, Infoengine a chyfeiriaduron adnoddau Galw lechyd Cymru drwy gyfrwng platform Dewis Cymru. Mae'r cyfeiriadur cyffredin ar gael hefyd ar ffurf Ap all-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen ledled Cymru.

## Gaf i ddefnyddio'r Ap?

Mae'r Ap newydd - 'lechyd a Llesiant Cymru' - wedi ei anelu at staff o ystod o gyrrf ac ar gael dim ond i ddefnyddwyr cofrestredig sydd â chyfeiriad e-bost sy'n perthyn i un o'r 'sefydliadau derbyniol'. Mae'n cynnig mynediad i fanylion gwasanaethau a gwybodaeth gyswllt am ystod eang o sefydliadau, grwpiau cymunedol a gwasanaethau lleol a chenedlaethol.

## Pam fyddwn i'n defnyddio'r Ap?

Mae llawer o resymau pam fyddch chi'n dewis defnyddio'r Ap:

- Mae defnyddio'r ap yn osgoi'r angen i ddefnyddio'ch data symudol, neu i orfod ceisio cysylltu â'r rhyngrywd tra byddwch chi i ffwrdd o'r swyddfa. Does dim angen unrhyw gysylltiad â'r rhyngrywd i'w ddefnyddio o ddydd i ddydd. Ar ôl cael ei lawrlwytho, mae'r Ap yn procio'r defnyddiwr i ddiweddu'r gwybodaeth o bryd i'w gilydd i sicrhau bod

- yr wybodaeth yn aros yn gyfredol.
- Caiff defnyddwyr ddewis lawrlwytho dim ond yr wybodaeth am eu hardal leol nhw.
- Mae cyfleuster chwilio grymus yn golygu bod defnyddwyr yn gallu chwilio am adnoddau yn ôl allweddair, categori, awdurdod lleol a/ neu ardal leol, a 'rhannu'r' wybodaeth ganlyniadol drwy'r cymwysiadau symudol arferol gan gynnwys e-bost, neges destun, Facebook, Messenger ac ati.
- Caiff defnyddwyr 'ddangos' neu 'guddio' adnoddau cenedlaethol sy'n cael eu cynnwys yn ddi-ofyn yn yr Ap gan ei wneud yn offeryn delfrydol ar gyfer Nyrsys ardal, Ymwelwyr lechyd, Gweithwyr cymdeithasol, Heddwelision, Cysylltwyr cymunedol, Presgripsiynwyr cymdeithasol, ac unrhyw staff eraill sy'n seiliedig yn y gymuned.
- Mae'r Ap yn gwbl ddwyieithog ac yn gydnaws ag Android ac iOS fel ei gilydd.

## Sut ydw i'n cael gafaol ar yr Ap?

I ddod o hyd i'r Ap a'i lawrlwytho, ewch i'r App store neu Google Play a chwilio am 'lechyd a Llesiant Cymru'. Unwaith y bydd yr Ap gennych chi, cofiwch ddefnyddio'ch cyfeiriad e-bost gwaith i gofrestru.

## Beth os oes angen help arna i?

Gallwch chi gysylltu â ni drwy e-bostio help@dewis.cymru os oes gennych chi unrhyw anawsterau wrth gael gafaol ar yr Ap neu ei ddefnyddio.

# Do you work in the community with members of the public? Would you like up to date information at your fingertips?



Download the 'Health and Well-being Wales' App. It provides offline access to information about a wide range of local and national organisations and services.



A Health and Well-being Wales Partner

A collaboration between Welsh Government, Local Government, Third Sector Support Wales and the NHS in Wales is working together as 'Health and Well-being Wales' to create a single shared service directory. The information is brought together from Dewis Cymru, Infoengine and the NHS Direct Wales resource directories via the Dewis Cymru platform. The shared directory is also available in the form of an offline App for frontline professionals across Wales.

## Can I use the App?

The new App – 'Health and Well-being Wales' is aimed at staff from a range of organisations and is only available to registered users with 'whitelisted' organisational e-mail addresses. It provides access to service details and contact information for a wide range of local and national organisations, community groups and services.

## Why would I use the App?

There are many reasons why you would choose to use the App:

- Using the app avoids the need to use your mobile data, or to have to try to connect to the internet while you're away from the office. No internet connection is required for day-to-day use. Once downloaded, the App prompts the user to update information periodically to ensure the information remains up to date.
- Users can choose to download just the information for their local area.
- A powerful search facility means users

- can search for resources by keyword, category, local authority and/or local area, and 'share' the resulting information via the usual mobile applications including e-mail, text message, Facebook, Messenger etc.

- Users can 'show' or 'hide' national resources that are included by default in the App making it an ideal tool for District nurses, Health visitors, Social workers, Youth workers, Police officers, Community connectors, Social prescribers, and any other community based staff.

- The App is fully bilingual and compatible with both Android and iOS.

## How do I get the App?

To find and download the App, go to the App store or Google Play and search for 'Health and Well-being Wales'. Once you've got the App, don't forget to use your work email address to register.

## What if I need help?

You can contact us by emailing [help@dewis.wales](mailto:help@dewis.wales) if you have any difficulties accessing or using the App.

# Ydych chi'n chwilio am sefydliadau neu wasanaethau lleol a chenedlaethol sy'n gallu eich helpu?



Cymerwch gip ar Dewis Cymru – Y man gorau i ddod o hyd i wybodaeth am ystod o wasanaethau llesiant yng Nghymru.



Partner Iechyd a Llesiant Cymru

Ydych chi'n chwilio am wasanaethau lleol sy'n gallu eich helpu?

Nod Dewis Cymru yw helpu pobl gyda'u llesiant drwy rannu gwybodaeth am ystod eang o sefydliadau a gwasanaethau lleol a chenedlaethol. Beth bynnag rydych chi'n chwilio amdano, o warchodwr plant i gartref gofal preswyl, mae'r ateb gan Dewis! Yna gallwch chi wneud eich dewis eich hun am ba wasanaethau sy'n bodloni'ch anghenion chi orau.

All Dewis Cymru fy helpu i?

Mae Dewis Cymru wedi cael ei ddatblygu i helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau sy'n gallu eu helpu i gymryd rheolaeth dros eu llesiant eu hun, felly mae Dewis Cymru ar eich cyfer CHI! Mae'n ddefnyddiol hefyd i bobl fel Meddygon Teulu, Llyfrgellwyr, Gweithwyr Cymdeithasol a llawer o sefydliadau lleol sy'n cynnig gwybodaeth i'r cyhoedd fel rhan o'u gwaith. Felly mae Dewis Cymru ar gyfer pawb!

Pa fath o wybodaeth ydy Dewis Cymru yn ei chadw?

Mae Dewis Cymru yn cynnig man i unrhyw sefydliad lleol neu genedlaethol rannu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ganddyn nhw i'w cynnig. Efallai mai'ch awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd, elusen leol neu genedlaethol neu grwp, clwb neu gymdeithas cymunedol sy'n darparu'r gwasanaethau sy'n cael eu rhestru (rydym ni'n rhannu gwasanaethau gydag 'Infoengine' – cyfeiriadur trydydd sector, a'r GIG

ynghyd â'r llesiant Cymru'). Bydd rhai gwasanaethau efallai'n cael eu cynnig yn rhad ac am ddim, eraill efallai'n codi tâl am eu gwasanaeth. Mae Dewis yn caniatáu i chi ddeall pa wasanaethau sydd ar gael ac yn gadael i chi ddewis sut orau i fodloni'ch anghenion chi. Felly p'un a ydych chi'n chwilio am ofal plant, rhywbeth i'w wneud, cymorth gydag anghenion tai, neu help i ddarparu gofal i rywun arall, mae'n debyg y bydd gan Dewis Cymru wybodaeth sy'n gallu eich helpu.

Ble alla i weld Dewis Cymru?

Mae ond angen mynd i [www.dewis.cymru](http://www.dewis.cymru). Yna byddwch chi'n gallu chwilio am wasanaethau neu bori ein tudalenau gwybodaeth genedlaethol sy'n bwriadu eich helpu i feddwl am beth sy'n bwysig i chi. Os oes angen unrhyw help arnoch chi, rhwch wybod i ni drwy ddefnyddio'r ddolen 'Cysylltu â Dewis' ar y wefan a byddwn ni'n hapus i'ch helpu.

Sut i gysylltu â ni

Gallwch chi gysylltu â ni drwy:

- ddefnyddio'r ddolen 'Cysylltu â Dewis' ar y wefan
- anfon e-bost aton ni yn [help@dewis.cymru](mailto:help@dewis.cymru)
- ymweld â'n tudalen Facebook
- cysylltu â ni drwy ein tudalen Twitter



# Are you looking for local and national organisations or services that can help you?



Visit Dewis Cymru – THE place to find information about a range of well-being services in Wales.

Are you looking for local services that can help you?

Dewis Cymru aims to help people with their well-being by sharing information about a wide range of local and national organisations and services. Whatever you are looking for, from a childminder to a residential care home, Dewis has the answer! You can then make your own choice over which services best meet your needs.

## Can Dewis Cymru help me?

Dewis Cymru has been developed to help people find information about organisations and services that can help them take control of their own well-being, so Dewis Cymru is for YOU! It is also useful for people like GPs, Librarians, Social Workers and lots of local organisations who offer information to the public as part of their work. So Dewis Cymru is for everyone!

## What sort of information does Dewis Cymru hold?

Dewis Cymru provides a place for any local or national organisation to share information about the services they have to offer. The services listed might be provided by your local authority, the Health Board, a local or national charity or a community group, club or society (we share services with 'Infoengine' - a third sector directory, and with the NHS in Wales as part of the 'Health and well-being Wales partnership). Some services may be provided free of charge, others may charge for their service. Dewis allows you to understand

what services are available and allows you to choose how best to meet your needs. So whether you're looking for childcare, something to do, help with housing needs, or help to provide care for someone, it's likely that Dewis Cymru will have information that can help you.

## Where can I find Dewis Cymru?

Just go to [www.dewis.wales](http://www.dewis.wales). You'll then be able to search for services or browse our national information pages that have been designed to help you think about what matters to you. If you need any help, let us know using the 'Contact Dewis' link on the website and we'll be happy to help you.

## How to contact us

You can contact us by:

- using the 'Contact Dewis' link on the website
- emailing us at [help@dewis.wales](mailto:help@dewis.wales)
- visiting our Facebook page
- contacting us via our Twitter page

# Ydych chi'n darparu gwasanaeth sy'n gallu helpu pobl gyda'u llesiaht?



Adiwrch eich gwybodaeth at Dewis Cymru - Y man gorau i ddod o hyd i wybodaeth am ystod o wasanaethau llesiant yng Nghymru.

Nod Dewis Cymru yw helpu pobl gyda'u llesiant drwy rannu gwybodaeth am ystod eang o sefydliadau a gwasanaethau lleol a chenedlaethol, gan roi dewis a rheolaeth iddyn nhw dros ba wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion nhw orau. Mae'n ddefnyddiol hefyd i bobl fel Meddygon Teulu, Llyfrgellwyr, Gweithwyr Cymdeithasol a llawer o sefydliadau lleol sy'n cynnig gwybodaeth i'r cyhoedd fel rhan o'u gwaith.

## Pam dylwn i adio gwybodaeth am fy ngwasanaeth i at Dewis Cymru?

Os oes gennych chi wasanaeth sy'n helpu pobl gyda'u llesiant, bydd adio'ch manylion at Dewis Cymru yn ei gwneud yn haws iddynt ddod o hyd i chi. Ar hyn o bryd mae Dewis Cymru yn cynnig tua 25 miliwn o ganlyniadau chwilio bob mis, sy'n golygu y bydd gwybodaeth am eich gwasanaeth chi'n weladwy i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth/cwsmeriaid ar hyd a lled Cymru. Mae rhesymau da eraill i'w ddefnyddio Dewis Cymru yn cynnwys:

- Mae'n rhad ac am ddim
- Mae'n hawdd cofrestru ac adio'ch manylion
- Bydd yn eich atgoffa chi bob chwe mis i wirio'ch manylion, felly byddwch chi'n gwybod eu bod yn gyfredol
- Mae'n cynnig mapiau a chyfeiriadau at eich gwasanaeth (lle bo'n briodol) i helpu pobl i ddod o hyd i chi
- Mae'n cael ei ddefnyddio gan lawer o asiantaethau cyngor yn barod i gyfeirio pobl at wasanaethau lleol a all eu

helpu, felly bydd cael eich gwybodaeth ar Dewis Cymru yn golygu bod modd cyfeirio pobl at eich gwasanaeth.

## Felly, beth ydw i'n ei wneud nesaf?

I adio'ch gwybodaeth chi, bydd angen i chi gofrestru. Ewch i [www.dewis.cymru](http://www.dewis.cymru) a 'Chofrestru' i greu eich cyfrif. Ar ôl i chi wneud hyn, bydd rhaid 'Mewngofnodi' i'r safle a mynd i 'Rheoli adnoddau' ac 'Ychwanegu adnoddau' er mwyn adio gwybodaeth am eich gwasanaethau chi.

## Gaf i adio gwybodaeth am unrhyw wasanaeth?

Cewch. Rydym ni'n annog pobl i adio gwybodaeth am wasanaethau penodol maen nhw'n eu cynnig. Felly, os ydych chi'n cynnal grwp cymunedol, cewch roi manylion am ei nodau, ble a phryd mae'n cwrdd, a sut i gysylltu â chi. Os ydych chi'n cynrychioli corff sy'n darparu amrediad o wasanaethau, adiwrch y gwasanaethau'n unigol er mwyn i ddefnyddwyr y safle gael dod o hyd i'r gwasanaeth maen nhw'n chwilio amdano.

## Sut i gysylltu â ni

Cewch gysylltu â ni drwy:

- ddefnyddio'r ddolen 'Cysylltu â Dewis' ar y wefan
- e-bostio [help@dewis.cymru](mailto:help@dewis.cymru)

# Do you provide a service that can help people with their well-being?



Add your information to Dewis Cymru – THE place to find information about a range of well-being services in Wales.

Dewis Cymru aims to help people with their well-being by sharing information about a wide range of local and national organisations and services, allowing them choice and control over which services can best meet their needs. It is also useful for people like GPs, Librarians, Social Workers and lots of local organisations who offer information to the public as part of their work.

## Why should I add information about my service to Dewis Cymru?

If you've got a service that helps people with their well-being, adding your details to Dewis Cymru will make it easier for them to find you. Dewis Cymru currently serves up around 25 million search results each month, which means that information about your service will be visible to potential service users/customers across Wales. Other good reasons to use Dewis Cymru include:

- It's free
- It's easy to register and add your details
- It will remind you every six months to check your details, so you'll know they are up to date
- It provides maps and directions to your service (where appropriate) to help people find you
- It's already being used by many advice agencies to direct people to local services that can help them, so having your information on Dewis Cymru will mean that people can be directed to your service.

## So, what do I do next?

To add your information, you'll need to register. Go to [www.dewis.wales](http://www.dewis.wales) and 'Sign up' to create your account. Once you've done this, 'Sign in' to the site and go to 'Manage resources' and 'Add resources' to add information about your services.

## Can I add information about any service?

Yes. We encourage people to add information about specific services that they offer. So, if you run a community group you can add details of what it's about, where and when it meets, and how to get in touch. If you represent an organisation which provides a range of services, please add the services individually so that users of the site can find the services they're looking for.

## How to contact us

You can contact us by:

- using the 'Contact Dewis' link on the website
- emailing us at [help@dewis.wales](mailto:help@dewis.wales)